# Bwletin GwE

## CYDWEITHIO · DYSGU · LLWYDDO

‼ Rhannwch ein Bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n rhestr bostio. ‼

## DYDDIAD I'R DYDDIADUR: Marchnad Cwricwlwm i Gymru

**22/06/2023** **Venue Cymru, Llandudno**

Nodyn byr i'ch hysbysu y byddwn yn trefnu 'Marchnad Cwricwlwm i Gymru' i arweinwyr ysgolion y rhanbarth ar **22/06/2023 yn Venue Cymru, Llandudno**. Bydd yn gyfle i rannu datblygiadau Cwricwlwm i Gymru a dathlu llwyddiannau, gyda'r nod o rannu arferion sy'n dod i'r amlwg hyd yma ar draws MDPh. Byddwn yn anfon agenda a manylion cofrestru i'ch sylw maes o law.





Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BY
0300 500 8087
Canolfan Cefnogaeth GwE
@GwEGogleddCymru
post@gwegogledd.cymru
www.gwegogledd.cymru
g6.gwegogledd.cymru
GwE Gogledd Cymru

# CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

## Cynnig Dysgu Proffesiynol – Dysgu Digidol

| DIGWYDDIAD | LLEOLIAD | DYDDIAD | CYFRWNG | COFRESTRU |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu ac Addysgu (S) \| Mike Gershon | Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor | 03/05/2023 | English | COFRESTRU |
| Dysgu ac Addysgu (S) \| Mike Gershon | White House, Rhuallt | 04/05/2023 | English | COFRESTRU |
| Dysgu ac Addysgu (S) \| Mike Gershon | Gwesty'r Beaufort, Yr Wyddgrug | 05/05/2023 | English | COFRESTRU |
| ANG: Asesu Ffurfiannol yn y Dosbarth | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno | 18/05/2023 | English | G6 |
| ANG: Asesu Ffurfiannol yn y Dosbarth | Plas Menai, Caernarfon | 19/05/2023 | Cymraeg | G6 |
| Gweithdy Gwerthuso a CDY Gwynedd | Clwb Pêl-Droed Porthmadog | 23/05/2023 | Cymraeg | COFRESTRU |
| Hyfforddiant ANG Ysgolion Arbennig | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno | 09/06/2023 | English | COFRESTRU |
| Asesu Ar Fynediad | Plas Menai, Caernarfon | 13/06/2023 | Cymraeg | COFRESTRU |
| Asesu Ar Fynediad | Clwb Pêl-Droed Porthmadog | 14/06/2023 | Cymraeg | COFRESTRU |
| Asesu Ar Fynediad | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno | 19/06/2023 | Cymraeg | COFRESTRU |
| Asesu Ar Fynediad | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno | 19/06/2023 | English | COFRESTRU |
| Asesu Ar Fynediad | Gwesty'r Beaufort, Yr Wyddgrug | 20/06/2023 | English | COFRESTRU |
| Asesu Ar Fynediad | Gwesty'r Beaufort, Yr Wyddgrug | 20/06/2023 | Cymraeg | COFRESTRU |

## DIGWYDDIADAU O FEWN Y PYTHEFNOS NESAF

| DIGWYDDIAD | LLEOLIAD | DYDDIAD | CYFRWNG |
|---|---|---|---|
| 3 Diben Asesu | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno | 27/04/2023 | Cymraeg |
| Celfyddydau Mynegiannol 3-8: Athrawon [Sesiwn 1] | Plas Menai, Caernarfon | 27/04/2023 | Cymraeg |
| 3 Diben Asesu | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno | 28/04/2023 | English |
| Celfyddydau Mynegiannol 3-8: Athrawon [Sesiwn 1] | Clwb Rygbi Dolgellau | 03/05/2023 | Cymraeg |
| Dysgu ac Addysgu (S) \| Mike Gershon | Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor | 03/05/2023 | English |
| Dysgu ac Addysgu (S) \| Mike Gershon | White House, Rhuallt | 04/05/2023 | English |
| Dysgu ac Addysgu (S) \| Mike Gershon | Gwesty'r Beaufort, Yr Wyddgrug | 05/05/2023 | English |

# RHAGLENNI CENEDLAETHOL

## Rhaglen Datblygu Darpar CALU

Mae Cylch 7 y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym mis Medi 2023.
Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw **19/06/2023**.
Cliciwch yma am wybodaeth am y Rhaglen a sut i ymgeisio.

## Llwybr Dysgu i Gymorthyddion Addysgu




'**Cymorthyddion wrth eu Gwaith**' - rhaglen hyfforddiant genedlaethol i gymorthyddion addysgu sydd yn eu swydd ers dros ddwy flynedd. *Ad-delir costau*. Am fwy o wybodaeth, cliciwch yma.

## Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, **cliciwch yma**.

## Dosbarth *Google* i Gynorthwywyr Addysgu

Banc o adnoddau ar gyfer datblygiad proffesiynol cynorthwywyr addysgu, yn cynnwys: Defnyddio eich Pasbort Dysgu Proffesiynol; Safonau Proffesiynol ar gyfer Cynorthwyo Addysgu; Statws CALU; Cwricwlwm i Gymru; Adnoddau Hwb; Dysgu Cymraeg, ac ati.

Defnyddiwch eich e-bost Hwb i ymuno, gyda'r cod hwn: **ghlyepw**.

Dyma ddolen i gyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad at y dudalen drwy ddefnyddio eich cyfrif Hwb: https://cutt.ly/Cyfarwyddiadau-Google-Classroom-i-Gymorthyddion

Cliciwch yma am gyfarwyddiadau dwyieithog ar sut i ddefnyddio Google Classroom, ac yma am droslais yn egluro beth sydd yn y Google Classroom: https://cutt.ly/Troslais-Google-Classroom

# NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

## Mike Gershon – Rhaglen Dysgu ac Addysgu i Gefnogi Dysgwyr Bregus a Difreintiedig

Wedi'i chomisiynu gan y Consortia, a'i darparu ar gyfer ysgolion a lleoliadau yng Nghymru yn unig, mae Cefnogi Dysgwyr Bregus a Difreintiedig trwy Ddysgu ac Addysgu Effeithiol yn rhaglen cymorth proffesiynol bwrpasol a chynhwysfawr, sy'n tynnu ynghyd strategaethau yn seiliedig ar dystiolaeth fydd yn eich helpu i gyfoethogi a gwreiddio arferion dosbarth effeithiol. **Cliciwch yma** am ragor o wybodaeth, dyddiadau a manylion cofrestru.

## Asesiadau Personol – Negeseuon Rhanbarthol

**Cliciwch yma** am yr wybodaeth a'r astudiaethau achos diweddaraf .

## 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg':

**GWNEUD SYNNWYR O'R MAES LLAFUR CYTÛN, CANLLAWIAU LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG A MAES DYSGU A PHROFIAD Y DYNIAETHAU**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg | 18/05/2023 | 9:30-12:00 | Cyfarfod rhithwir |
| Cyfrwng Saesneg | 18/05/2023 | 13:00-15:30 | Cyfarfod rhithwir |

**Cynulleidfa:**
Athrawon sy'n gyfrifol am ddylunio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y cwricwlwm. Addas i athrawon cynradd, uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion.

**Diben:**
Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Rhaid i ysgolion, waeth beth fo'u cymeriad crefyddol, ystyried y Maes Llafur Cytûn a'r canllawiau ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Bydd yr hyfforddiant hwn yn helpu athrawon i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r prif agweddau ar y Maes Llafur Cytûn a'r Canllawiau.

**Defnyddiwch y ddolen hon i gofrestru ar y cwrs.**

## Rhwydweithiau Tymor yr Haf i Ymarferwyr y grŵp oedran 3 i 8 oed

Ffocws y rhwydweithiau fydd:

- Datblygu sgiliau cyn-ddarllen, sgiliau darllen cynnar yn ogystal ag uwch sgiliau darllen.
- Rhannu syniadau ar ddatblygu sgiliau darllen yn yr amrywiol ardaloedd tu mewn a thu allan ac ar draws y meysydd dysgu a phrofiad.
- Astudiaeth achos gan ysgol ar y siwrne i ddatblygu sgiliau darllen yn eu lleoliad.

Dyddiadau a lleoliadau ar gael yma.

## Cyfle i Gofrestru: Cyrsiau Sabothol

Cwrs Cymraeg Mewn Blwyddyn – Medi 2023-Gorffennaf 2024 – wedi'i anelu at athrawon mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg.
Cyfle i ddatblygu sgiliau iaith personol athrawon a'u galluogi i godi safonau'r Gymraeg ar draws yr ysgol.
Cliciwch yma am ragor o wybodaeth.

## Cyhoeddi gwaith ymchwil newydd gydag ysgolion GwE - Asesu ystod a sail dystiolaeth ymyraethau mewn clwstwr o ysgolion

Mae'n bleser gan GwE weld bod canlyniadau un o'n prosiectau ymchwil ar y cyd wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar mewn cyfnodolyn a adolygwyd gan gymheiriaid, *sef Review of Education* ac mewn blog gan Gymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain (BERA). Gwnaethpwyd y gwaith hwn gydag ymchwilwyr o'r Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor yn rhan o ymdrechion parhaus GwE i seilio polisïau ac arferion ar ddulliau sy'n fwy seiliedig ar dystiolaeth. Cliciwch yma am ragor o fanylion.

## Prosiectau Darllen GwE

Bu GwE yn gweithio gydag ymchwilwyr y Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor i roi cymorth gyda dysgu darllen effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym wedi crynhoi strwythur y cymorth hwn mewn trosolwg polisi i ysgolion ac mae'n bleser gennym wahodd ysgolion i gael hyfforddiant ar dri o'r prosiectau hyn, fel a ganlyn:

Hyfforddiant am ddim i ysgolion gyflwyno rhaglen llythrennedd CA2 i ddysgwyr sy'n cael trafferth wrth ddarllen. Rhagor o wybodaeth.

## Adnoddau i Rieni a Gofalwyr

Helpu Eich Plentyn i Ddysgu – CYNRADD / BLYNYDDOEDD 7 AC 8
**ADNODDAU:** CYMRAEG | ENGLISH

Help your child to learn with Mike Gershon

Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu – BLYNYDDOEDD 9, 10 AC 11
**ADNODDAU:** CYMRAEG | ENGLISH

Help your teen to learn with Mike Gershon

**HOLWCH YMGYNGHORYDD CEFNOGI GWELLIANT EICH YSGOL AM GÔD TALEB.**



## RADY – Codi Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Difreintiedig

Mae Rhaglen RADY yn ffordd o gau'r bylchau sydd yn targedu 'system nerfol ganolog' ysgol yn uniongyrchol - ei systemau gosod targedau, tracio a monitro. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o strategaethau eraill i gau'r bwlch, mae RADY wedi'i bwriadu ar gyfer uwch reolwyr ac athrawon mewn ysgolion. Datblygwyd RADY yn ardal Wirral yn 2013 i ymateb yn uniongyrchol i ddiffyg nas gwelwyd cyn hynny mewn systemau ysgolion, diffyg all gynnal y bwlch a llesteirio ymdrechion i'w leihau oni bai y caiff sylw. Ewch i challengingeducation.co.uk am fwy o wybodaeth.

Mae GwE yn gofyn i glystyrau o ysgolion fynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn prosiect peilot RADY. Byddai gofyn i bob ysgol yn y clwstwr ymrwymo'n hirdymor i'r prosiect. Bydd y peilot ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn rhad ac am ddim i'r ysgolion a fydd yn cymryd rhan. Am fwy o wybodaeth ac i fynegi diddordeb, anfonwch e-bost at catherinemcnamara@gwegogledd.cymru.

## Dyfodol Byd-eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

**Canolfan Cefnogaeth GwE: Ieithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau** - http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgraidd-adnoddau-gwe

**Newyddlenni**
**Cymraeg: Cynradd | Uwchradd English: Primary | Secondary**




### Cystadleuaeth 'Mamiaith, Ail Iaith'

Mae cystadleuaeth boblogaidd Mamiaith, Ail Iaith yn dod yn ôl i Gymru. Mae Llwybrau at Ieithoedd Cymru yn gwahodd cynigion gan ddisgyblion Blwyddyn 4 i Flwyddyn 13!
**Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion: 28/05/2023**

# NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

## Rhaglen Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl E-Ddysgu MIND

Mae'r Consortia wedi cydweithio â Mind Cymru i roi mynediad i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes addysg ledled Cymru at becyn e-ddysgu ymwybyddiaeth iechyd meddwl rhyngweithiol 45 munud am ddim.
Er mwyn cael mynediad at y rhaglen, cwblhewch y **ffurflen hon**.

## Rhaglen Cefnogi Dysgwyr Bregus a Difreintiedig Trwy Ddysgu ac Addysgu Effeithiol

Yn dilyn lansiad y Rhaglen hon gan Mike Gershon ar 06/02/23, gellir lawrlwytho copi o'r cyflwyniad yma.
Dyma'r ddolen i'r wefan: https://supportingvulnerablelearners.cymru/cy/mewngofnodi/
Cewch fynediad at yr holl adnoddau ar y wefan trwy gofrestru gan ddefnyddio eich manylion mewngofnodi Hwb.

## Rhaglen Bartneriaeth Lles: Cymorth Lles

Cliciwch y ddolen hon i weld taflen wybodaeth ddiweddaraf y Consortia ar gefnogaeth ar gyfer lles.

# GWYBODAETH GAN LYWODRAETH CYMRU

## Rheoli Perfformiad mewn Ysgol – Newid y Diwylliant

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu canllawiau rheoli perfformiad diwygiedig er mwyn dod â threfniadau yn unol â newidiadau eraill ym myd addysg.
Rydym am ymgysylltu ag amrywiaeth o ymarferwyr (athrawon, arweinwyr, a staff cymorth) o bob cyfnod, drwy gyfarfodydd Teams ar-lein ym mis Mai.
Os hoffech ymuno, cwblhewch y ffurflen hon https://forms.office.com/e/UuLRNsNrsZ

## Ymchwil newydd – Arferion Addysgu Cyrhaeddiad Cymysg

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil newydd i ganfod faint o ddysgu ac addysgu cyrhaeddiad cymysg sy'n digwydd a lle mae'n digwydd yng Nghymru. Rydym am ddeall manteision a heriau gwahanol ddulliau, a pha ddysgu proffesiynol fyddai'n ddefnyddiol yn y maes hwn.

Er bod llawer iawn o ymchwil wedi'i wneud yn y maes hwn mewn gwledydd eraill, ychydig iawn sydd wedi'i wneud i gynnig cipolwg penodol ar y sefyllfa yng Nghymru o ran addysgu cyrhaeddiad cymysg. Mae pob un ohonom yn cydnabod pwysigrwydd cyd-destun ym mhob agwedd ar addysg, a byddem yn gwerthfawrogi eich cyfraniad i astudiaeth a fydd yn ein galluogi i ddod i gasgliadau a chynnig argymhellion defnyddiol i'r system addysg ac i ymarferwyr yng Nghymru.

Gwahoddir ymarferwyr i gyfrannu at yr ymchwil hwn drwy gymryd rhan mewn holiadur ysgolion cynradd neu holiadur ysgolion uwchradd sydd wedi'i greu ac yn cael ei weinyddu gan dîm o ymchwilwyr o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant mewn cydweithrediad â Coleg Prifysgol Llundain. Y dyddiad cau yw 21 Mai 2023.

## Grant Datblygu Capasiti'r Gweithlu Addysg Cyfrwng Cymraeg 2023 i 2024

Mae gwybodaeth am y grant i ddatblygu capasiti'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg 2023 i 2024 ar Hwb.
Grant datblygu capasiti'r gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg 2023 i 2024 - Hwb (gov.wales)

## Arolwg Grant Urddas Mislif

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso ei Grant Urddas Mislif yn annibynnol. Rydym am asesu effeithiolrwydd y cyllid a'r broses o ledaenu cynnyrch mislif a dangos tystiolaeth o effaith y grant mewn ysgolion. Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech roi rhywfaint o adborth ar eich profiad o'r grant. **Cliciwch yma i gymryd rhan**.

# GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

## Estyn: Arolygu ar gyfer y Dyfodol (2024-2030)

**MAE ESTYN YN ADOLYGU SUT BYDD YN AROLYGU ADDYSG A HYFFORDDIANT O 2024 YMLAEN**
Mae'n adeiladu ar y newidiadau a wnaed eisoes – sef dileu graddau crynodol ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd a arolygir a chanolbwyntio mwy ar gryfderau a meysydd i'w datblygu – a bydd yn ymgynghori'n ehangach i glywed syniadau pawb.
Dysgwch fwy am ddull Estyn: Arolygu ar gyfer y dyfodol (2024–2030) | Estyn (llyw.cymru)

Estyn

## Dosbarthiadau Meistr Iechyd Meddwl a Lles gan *Education Support*

**A ydych chi wedi manteisio ar wasanaethau cymorth *Education Support* a ariennir yn llawn ar gyfer staff ysgol yng Nghymru?**

Mae'n bleser gennym rannu manylion am sut i gofrestru ar gyfer ein dosbarthiadau meistr a'n gweithdai lles a chymorth nesaf i staff ysgol yng Nghymru, a ariennir yn llawn.
Cliciwch yma am ragor o fanylion.

## Mentora Caru Darllen: Cofrestru erbyn 12/05/2023

Mae Mentora Caru Darllen yn brosiect newydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o ennyn brwdfrydedd a chariad at ddarllen ymhlith dysgwyr ysgolion cynradd. Cliciwch yma am fanylion llawn.




## Hyfforddiant Dysgu Awyr Agored – Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n datblygu 2 sesiwn hyfforddi wyneb yn wyneb newydd, am ddim mewn partneriaeth â *STEM Learning UK*. Cliciwch yma am ragor o fanylion.

## Cynhadledd Arweinyddiaeth Genedlaethol Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth Gwrth-hiliaeth DARPL

**08/06/2023** **10:00 – 15:30** **Canolfan yr Holl Genhedloedd, Caerdydd, CF14 3NY**

Caiff y digwyddiad hwn ei gynnal gan DARPL mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, CGA, NAEL, y *Black Leadership Group* a'r consortia rhanbarthol. Cliciwch yma am y manylion llawn ac i gofrestru.

## Cymorth Llesiant i Staff Ysgol yng Nghymru wedi'i Ariannu'n Llawn

**Ydych chi eisiau trawsnewid sut rydych chi neu'ch ysgol yn ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant staff?**
Cliciwch yma am ragor o fanylion.

## *Trauma Informed Schools* – Sesiynau Gwybodaeth

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth, dyddiadau a sut i archebu lle ar y sesiynau sydd i ddod.

## A allwch ein helpu i wella'r sylfaen dystiolaeth yng nghyd-destun apiau addysgol? *ANGEN DATA GAN YSGOLION O GYMRU*

Mae ymchwilwyr o'r Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor yn gweithio gyda thîm ymchwil ym Mhrifysgol Salford i werthuso potensial addysgol apiau sgrin gyffwrdd i helpu plant ar draws y DU i ddysgu. Byddem yn ddiolchgar iawn pe byddech yn gallu cwblhau ein harolwg.
**Cymraeg**: https://t.co/wBYxwKqv00 | **Saesneg**: https://t.co/pSxcaNrovK

## MA Addysg (Cymru)

Mae gan Brifysgol Bangor gymhwyster MA mewn Addysg **wedi'i ariannu'n llawn** i athrawon fel rhan o'u datblygiad proffesiynol.
Mae lleoedd a ariennir yn brin, ac mae meini prawf yn berthnasol. Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion yma.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Dr Kaydee Owen (E-bost: kaydee.owen@bangor.ac.uk).